**Wedi blynyddoedd o hybu gwadu, ExxonMobil yn cyfaddef — Ydy, mae Cynhesu Byd-eang YN digwydd**

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 31 Awst / Medi 2012 PRIS: £1




ISSN 1755-3504
08
9 771755 350009

**Rhifyn ola'r Papur Gwyrdd ...**

**yn gwarchod ein byd yn Gymraeg: 2007-12**

**Ond, ymlaen ag ymgyrch y Ddaear!**

# Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***



Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162
Ebost: ypapurgwyrdd1 @btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Hefyd ar Weplyfr / Facebook

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni **Y Papur Gwyrdd** Cyf.)

Argreffir **Y Papur Gwyrdd** yn ddigidol gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


## RHIFYN OLAF Y PAPUR GWYRDD

LANSIWYD y cylchgrawn hwn yn 2007 wrth i i ni deimlo mai dyma fyddai'n cyfraniad ni i hybu mudiad y Ddaear ymysg ninnau'r Cymry Cymraeg.

Gwnaethom hynny'n llawen, gan ddysgu llawer yn y broses a gwneud ein gorau i addasu'n bywydau i achosi llai o ddifrod i'r blaned ryfeddol sy'n ein cynnal. A daethom i ddeall yn well yr angen am gytgord rhwng dynoliaeth a'r Ddaear.

Ond bu'n 5 blynedd anodd i'r mudiad amgylcheddol byd-eang. Methodd cynadleddau Copenhagen yn 2009, a Rio+20 eleni, i gytuno ar sut i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n achosi Cynhesu Byd-eang. Ni wrandawyd ar rybuddion y gwyddonwyr. Dal i godi'n gyflym mae'r allyriadau sy'n gymaint o fygythiad. Elw'r corfforaethau ynni carbon sy'n rheoli.

Bellach, ofn rhai meddylwyr sylweddol yw eu bod hi'n rhy hwyr i atal datblygiadau trychinebus. Ond mae llawer, ar bob cyfandir, sy'n mynnu'n afieithus y gellir creu ffyrdd callach o fyw gan ffrwyno'r gwaethaf. Down a'r Papur Gwyrdd i ben ond, gyda chriw gobeithiol y blaned, fe barhawn trwy'r gwaith, llawer haws, o gynnal safle Wê yn unig.

<u>Yn sicr, hollol anghyfrifol yw peidio ag ymateb i'r rhybuddion taer, sylweddol, ynghylch y difrod a wnawn i'r Ddaear</u>.

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Exxon yn cyfaddef — mae'r byd yn cynhesu
Asgell dde America yn hwb i wrth-dyrbinwyr

**4** GOLYGYDDOL
**Hywel a Charlotte Davies —** Diolch, a pharhau i ymgyrchu
Cynhesu Byd-eang — angen darllen i ddeall

**5** Oriel cyfranwyr Y Papur Gwyrdd

**6** Awel Aman Tawe'n denu beirdd y byd
Pobl yr ynysoedd yn ofni codiad y mor
Llundain yn gwthio ffracio nwy arnom

**7** NEWID HINSAWDD
**Charlotte Davies —** Ôl y Cynhesu yn y tywydd garw?

**8** PARCHU'R DDAEAR
Lleihau ôl troed ar y blaned annwyl — ein hymdrechion ni

**9** NEWYDDION
Galw am ynni gwynt glân — gyda gofal

**10** **Daear-iadur**
Croesawu Maes Gwyrdd Prifwyl 2012

**11** **Y byd a'r aelwyd**
Taliesin yn falch am ddiwedd YPG
Lluniau o ymgyrch y Ddaear




Beirdd Awel Aman Tawe: Hilma Ll. Edwards



Beirdd Awel Aman Tawe: Sioned Haf



Bardd Ynysoedd Marshall: Kathy Jetnil-Kiginer

***MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12***

# Glo brig brwnt yn fygythiad cynyddol

**YN ystod pum mlynedd bodolaeth cylchgrawn Y Papur Gwyrdd, mae bygythiad Cynhesu Byd-eang wedi parhau i gynyddu, ac mae twf y diwydiant llosgi glo ledled y byd ymysg y prif gyfranwyr at y broses.**

Yma yng Nghymru, wrth i ffermydd ynni gwynt glân ar fynyddoedd anghysbell gael eu hatal gan brotestiadau gwledig, mae cwmnïau llosgi glo'n rhuthro i elwa'n fawr trwy ddarnio'r deheudir i godi glo brig.

Wrth i'r Papur Gwyrdd gael ei lansio yn 2007, roedd cwmni Seisnig Miller Argent wrthi'n dechrau rhwygo'r mynydd uwch Merthyr Tudful i greu safle glo brig Ffos-y-fran, sef y mwyaf yn Ewrop.

Ac wrth i'r cylchgrawn ddod i ben, mae Celtic Energy newydd gyhoeddi'u bwriad i ymosod ar Fryn Defaid rhwng Merthyr ac Aberdâr i godi glo brig yno, dim ond ychydig wedi i gwmni Hargreaves o Ogledd Lloegr ddechrau cloddio yn Hirwaun gyfagos.

Mae'r safleoedd glo brig hyn yn 'berygl clir a phresennol' i'r Ddaear gan mai at Bwerdy Trydan Aberddawan y danfonir eu cynnyrch i'w losgi. Eiddo'r cwmni Almeinig RWEnpower yw Aberddawan: does ganddo ddim system i atal $CO_2$ rhag cael ei ryddhau i gynhesu'r atmosffer — a does dim un ledled y byd.

► Roedd 'Glo Glân' yn slogan gan y cwmniau glo i dwyllo'r cyhoedd. Ac fe lwyddodd. Dyw'r cwmniau glo ddim hyd yn oed yn sôn amdano bellach.


***YN PARHAU ...***

**Gwefan Y Papur Gwyrdd**

**Yr e-borth Gymraeg i fudiadau'r Ddaear**

**www.ypapurgwyrdd.com ac ar Weplyfr/Facebook**
**Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com**



Dr David Clubb

# Llais newydd i hyrwyddo ynni gwynt a môr

MAE'R Dr David Clubb o Ben-y-bont ar Ogwr wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr ar RenewableUK Cymru – y corff sy'n gweithredu ac yn llefaru ar ran y diwydiant ynni adnewyddol gwynt a môr.

Cyn cael ei benodi gan Renewable UK Cymru, bu Dr Clubb yn gweithio gydag Asiantaeth Amgylcheddol Ewrop yn ninas Copenhagen lle roedd yn arbenigwr ar ynni adnewyddol gan gynnwys effeithiau newidiadau yn yr hinsawdd ar y sector ynni.

Gwyddonydd a ddechreuodd ei yrfa ym maes ffiseg gymhwysol yw Dr Clubb.

Fel Cyfarwyddwr RenewableUK Cymru, fe fydd yn gweithio'n agos gydag aelodau'r Renewable UK Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a mudiadau amgylcheddol i danlinellu manteision ynni gwynt a môr a'r angen amdano.

Meddai'r Cymro Cymraeg, "Rwy'n edrych ymlaen at yr her sy'n dod gyda fy swydd newydd. Mae Cymru wedi'i bendithio ag adnoddau ynni môr a gwynt sy'n destun eiddigedd.

"Fel diwydiant, rhaid i ni weithio'n galed i ddatblygu'r cyfleoedd hyn fydd yn cynnig manteision mawr i economi Cymru ac yn ein helpu i leihau ein dibynniaeth ar danwyddau ffosil."

► Gellir cysylltu â RenewableUK Cymru trwy ffonio 02920 220700 neu ebostio cymru@renewableuk.com.

# ExxonMobil nawr yn cyfaddef — Cynhesu Byd-eang *yn* digwydd

## ... WEDI BLYNYDDOEDD O HYBU GWADWYR

**MAE prif weithredwr ExxonMobil, Rex Tillerson, bellach wedi cydnabod bod llosgi tanwyddau ffosil yn achosi Cynhesu Byd-eang.**

ExxonMobil yw corfforaeth ail-fwya'r byd gydag incwm o $450biliwn y llynedd. Mae hynny'n fwy na maint economïau rhan fwyaf gwledydd y byd.

Bu Tillerson yn ei swydd ers chwe mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd ExxonMobil yn dal ymysg y cwmnïau ynni carbon oedd yn rhoi symiau mawr o arian yn gyfrinachol i grwpiau sy'n gwadu Cynhesu Byd-eang. Cyn hynny, dan Lee Raymond, roedd Exxon pwerus wedi dylanwadu ar Lywodraeth America i beidio ag arwyddo Cytundeb Kyoto.

Bu ymgyrchoedd rhai o'r grwpiau amrywiol gwadu yn tanseilio rhybuddion sefydliadau gwyddonol ynghylch peryglon Newid Hinsawdd, yn bygwth gwyddonwyr hinsawdd yn yr Unol Daleithiau ac yn cyhuddo gwyddonwyr ym Mhrifysgol East Anglia o dwyll.

Ond wrth ateb cwestiwn yn dilyn araith i Gyngor Cysylltiadau Tramor yr Unol Daleithiau ar Fehefin 28, derbyniodd Rex Tillerson bod y tymheredd byd-eang ar gynnydd. Serch hynny, mynnodd fod pobl yn 'pryderu'n ormodol' am yr hyn sy'n digwydd ac y byddai cymdeithas yn gallu addasu.

Meddai, "Dw i ddim yn gwadu y bydd allyriadau cynyddol $CO_2$ i'r atmosffer yn cael effaith. Fe fydd yn cael yr effaith o gynhesu."

Ond mynnodd fod yr ofnau ynghylch hyn yn ddiangen.

"Mae pa mor fawr *[fydd y cynhesu]* yn anodd iawn i unrhyw un ei awgrymu. Ac yn dibynnu ar hynny, awgrymu pa mor enbyd fydd y canlyniadau."

Roedd Tillerson yn hollol ffyddiog am y dyfodol: "Fel bodau dynol ... rydyn ni wedi treulio'r cyfan o'n bodolaeth yn addasu. OK? Felly, byddwn yn addasu i hyn ... Problem beirianyddol ydyw, ac mae iddo atebion peirianyddol."

Yn y cyfryngau Americanaidd cafwyd ymatebion i agwedd optimistaidd Ray Tillerson.

Mynnodd gwyddonydd o Awstralia, Andrew Weaver, fod modelau cyfrifiadurol yn gallu rhoi syniad da iawn o'r math o newidiadau hinsawdd sy'n rhwym o ddigwydd. A byddai addasu i'r newidiadau hynny'n fwy anodd o lawer nag roedd Tillerson yn cydnabod.

Meddai Steve Coll, awdur **Private Empire: ExxonMobil and American Power**, ei fod yn synnu bod Exxon yn sôn am gymdeithas yn addasu i newid hinsawdd tra bod cyfle o hyd i osgoi'r effeithiau gwaethaf. Byddai addasu'n fwy costus o lawer na lleihau allyriadau, meddai — "Bydd symud dinasoedd cyfan yn gostus tu hwnt."

Ond canlyniad pennaf datganiad Mr Tillerson oedd chwalu un o brif ddadleuon yr 'amheuwyr' y bu ei gorfforaeth ei hun yn eu hariannu mor hir — sef nad yw Cynhesu Byd-eang yn digwydd. Mae hyd yn oed ExxonMobil yn gorfod derbyn hynny nawr, yn hwyr iawn yn y dydd.

## Asgell dde America'n dylanwadu?

MYNNODD gwrthwynebydd i dyrbinau gwynt yn **Y Cymro** bod *"ymchwiliadau gwyddonol diweddaraf HADcrut (sic) sy'n mesur elfennau o wresogi byd eang yn dangos nad oes yna wresogi byd-eang wedi cymryd lle am dros bymtheg mlynedd." (Mehefin 29)*

Cyfeiriodd y llythyr wraig at wefan **C3 Headlines** am dystiolaeth, sef gwefan asgell dde Americanaidd sy'n ymgyrchu yn erbyn yr Arlywydd Barack Obama a '*Stupid Democrats*' eraill, ac yn gwadu Cynhesu Byd-eang.

Gwnaeth Swyddfa Dywydd y Deyrnas Gyfunol ddatganiad am hyn yn Ionawr, 2012:

"Beth sy'n hollol glir yw ein bod yn parhau i weld tueddiad barhaol o gynhesu, gyda degawd 2000-2009 yn amlwg yr un cynhesaf ers i'r recordiau gan offer gychwyn ym 1850. Gan ddibynnu ar ba recordiau tymheredd a ddefnyddir, 2010 oedd y flwyddyn gynhesaf ... neu'r ail gynhesaf."

> Mae heddwch a pharhad bywyd fel y gwyddom amdano ar y Ddaear yn cael eu bygwth gan weithgareddau gan bobl sy'n anwybyddu gwerthoedd dyngarol. Mae dinistrio byd natur ac adnoddau dynol yn ganlyniad i anwybodaeth, trachwant a diffyg parch at bethau byw'r Ddaear. *Y Dalai Lama*

## Tocio $CO_2$ — testun sbort?

**CHWALWYD holl honiadau cysurlawn gwleidyddion Cymru ein bod yn cyfrannu'n siâr at ymdrechion i docio allyriadau niweidiol $CO_2$ i'r atmosffer.**

Yn lle bod ein hallyriadau carbon wedi disgyn, dangosodd ffigyrau Llywodraeth San Steffan eu bod wedi codi o 8% rhwng 2009 a 2010.

Carbon Deuocsid yw'r nwy tŷ gwydr sy'n cyfrannu mwyaf at Gynhesu Byd-eang a'r Newid Hinsawdd sy'n dilyn.

Perfformiad Cymru oedd y gwaethaf yn y rhestr warthus Brydeinig. Cododd allyriadau'r Alban o 7%, Gogledd Iwerddon o 4% a Lloegr o 2%.

Dywedodd Gareth Clubb, Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru, fod y ffigyrau'n 'drychinebus': "Mae'r ffigyrau allyriadau hyn yn ein cymryd yn ôl i ble roeddem yn 2002. Rydyn ni wedi colli wyth mlynedd yn y frwydr i atal Newid Hinsawdd peryglus.

"Ond, yn waeth, mae'n dangos yn glir bod yr economi werdd ar goll. Rhaid i Lywodraeth Cymru feddwl yn galed os ydy ei tharged o leihad blynyddol o 3% yn ein hallyriadau yn mynd i fod yn unrhyw beth ond testun sport."

GOLYGYDDOL

HYWEL A CHARLOTTE DAVIES



# Diolch i gyfeillion YPG — ac ymlaen â'r ymgyrch

**NID o ganol y sefydliad llywodraethol / asiantaethol / academaidd / cyfryngol y daeth cylchgrawn Y Papur Gwyrdd, ac yr ydym yn ymfalchïo yn hynny.**

Menter annibynnol fu hon o'r cychwyn, heb nawdd ariannol na chyfyngiadau arni i ddilyn syniadau orthodocs, busnes-fel-arfer.

Bu'n fenter ecolegol Gymraeg hefyd, nid dwyieithog, ac yr ydym yn falch am hynny hefyd.

Ond, o'r herwydd, bu angen cyfeillion ar **Y Papur Gwyrdd** i'w gynnal, a chyfeillion go arbennig. Cymry Cymraeg darllengar, inc-ar-bapur, (tipyn o dolc yn y rhifau ar unwaith!) oedd eu hangen fyddai'n synhwyro, fel ninnau'n gynyddol, bod dynoliaeth wedi colli gafael ar bwysigrwydd y Ddaear fel cyd-destun ein bodolaeth (a dyna dolc arall!). Pobl fyddai'n gweld bod y datgysylltiad hwn wedi arwain at fyrdd o broblemau dwys sy'n achosi niwed i gymaint o agweddau o'n bywydau.




Da gennym ddweud i ni ddod o hyd i'r cyfeillion hynny, digon ohonynt i gyfiawnhau ein bodolaeth am bum mlynedd ac am hwy na hynny pe dewisem. Diolchwn yn fawr iddynt oll, yn brynwyr lleol ac yn danysgrifwyr ffyddlon a hael.

Yn sicr, bu angen ambell i gyfaill eithriadol o gefnogol, a hoffem enwi dau yn benodol.

Dychmygwch Gordon James, pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru ar y pryd, yn derbyn galwad ffôn gan ryw fachan nad oedd yn ei nabod (sef Hywel), ac na fu'n ymgyrchydd amgylcheddol, a hwnnw'n cyhoeddi ei fod yn bwriadu sefydlu cylchgrawn ecolegol Cymraeg. Byddai ambell un wedi ffromi. Efallai digwyddodd hynny gyda rhai. Ond nid Gordon. Cawsom gefnogaeth frwd ganddo o'r cychwyn. Rhannodd wybodaeth. Cyfrannodd erthyglau. Fe'n hysbrydolwyd gan ei ymroddiad i achos y Ddaear yng Nghymru.

A dyna Rhiannon Rowley, perchennog a rheolwr ffatri lwyddiannus Abaca yn Nhŷ Croes, Shir Gâr, sy'n cynhyrchu matresi organig. Wedi dod o hyd i rifyn cyntaf **Y Papur Gwyrdd**, cysylltodd Rhiannon â ni i ddweud eu bod hi eisiau hysbysebu. Llawn tudalen. Lliw llawn. Pob rhifyn. A dyna fu, fel y gwelwch o dudalen cefn y rhifyn hwn eto. Bu'n chwistrelliad ariannol pwysig iawn. Ac ysbrydoliaeth arall oedd deall bod Rhiannon yn gweithio'n wirfoddol i hybu twf mudiad cymunedol Trefi Trawsnewid.

Bu menter **Y Papur Gwyrdd** hefyd yn rhyngwladol ei natur. A bu hynny'n gwbl ganolog i'n hethos. Nid oedd y ffaith ein bod yn cyhoeddi yn Gymraeg yn golygu am eiliad bod hynny'n cyfyngu ar ein gweledigaeth. Trwy ein hiaith, roeddem yn croesawu ac yn cyhoeddi syniadau a newyddion o bedwar ban byd. Nid cyfeirio at Gymry Cymraeg yn unig oeddem wrth ddefnyddio'r gair 'ni'. Ein nod oedd, ac yw, lleoli ein cymuned genedlaethol ynghanol y mudiad planedol sy'n tyfu i warchod y Ddaear.

Byddem wedi hoffi honni bod achos y Ddaear yn ffynnu wrth ddod â'r cylchgrawn i ben. Ond yn wahanol iawn mae pethau, ysywaeth. Hyrddio ymlaen mae'r diwydiannau ynni ffosil. Ar gynnydd mae allyriadau $CO_2$. Cynllunio mwy eto o ddifrod i'r Ddaear mae'r corfforaethau enfawr. Ac ar ffo mae arweinyr y byd.

A thyfu mae ofnau gwyddonwyr am yr hyn sy'n digwydd i'r systemau naturiol sy'n ein cynnal ar yr hyn a fu tan yn ddiweddar yn blaned gyfeillgar. Rhoddwyd y gorau, bellach, i obeithion y gallwn gadw'r codiad yn y tymheredd byd-eang i lai na 2ºC yn uwch na'r cyfnod diwydiannol. Y disgwyl yw yr aiff yn waeth o gryn dipyn na hynny.

Rhaid cryfhau ein hymdrechion i gael ein gwleidyddion i atal y broses beryglus hon. Rhaid iddynt dderbyn y cyfrifoldeb i reoli penaethiaid byd busnes a diwydiannau sy'n amlwg wedi colli pob ymdeimlad o foesoldeb a chyfrifoldeb cymunedol wrth iddynt hela elw personol. Disgwylion i'n pleidiau gwleidyddol dyfu i wynebu'r her.

Ymunwn fel Cymry â phobl dda a gwaraidd eraill ledled y byd i wneud yr hyn a allwn i leihau ein hôl troed gwallgof o ddinistriol ar y Ddaear. Mae prosiect **Y Papur Gwyrdd** ar ben, ond fe fyddwn ni'n bersonol yn parhau i hybu ymgyrchoedd i sicrhau hynny yn ein plith. Ie, fel Martin Luther yn wyneb bygythiadau diwedd y byd, plannwn ninnau ein coed afalau! ■

# Ceisiwn ddeall ofnau'r gwyddonwyr sylweddol

**WRTH ddod â chylchgrawn Y Papur Gwyrdd i ben, dyma restr bersonol o'r llyfrau rydyn ni ein hunain wedi bod yn eu darllen ar bwnc Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd.**

Roedden nhw wedi cadarnhau'r gred y daethom iddi tua 10 mlynedd yn ôl y dylem ddechrau parchu'r unig Ddaear sydd gennym — gan gymryd o ddifrif y rhybuddion gwyddonol am ein dyfodol.

Sut yr ymatebwn i gynnwys y llyfrau, gan awduron mor sylweddol? Gweddio? Cael Gin a Thonic (cryf)? Anobeithio? Gweithredu'n wleidyddol? Ymgyrchu'n uniongyrchol? Beth bynnag ein hymateb, y peth lleiaf y gallwn ei wneud yw ysgafnhau ein hôl-troed ar blaned yr ydym wedi bod yn ei difrodi mor ddifeddwl ers cyhyd.

Y ffolineb mwyaf, er y peth hawsaf yn y tymor byr, fyddai anwybyddu'r peryglon a pharhau i fyw fel petai dim byd yn newid.

Ta waeth, dyma'r math o lyfrau rydyn ni wedi bod yn eu hastudio (heb sôn am wefannau gwyddonol, erthyglau ac adroddiadau):

**Requiem for a Species**, Why We Resist the Truth about Climate Change, Clive Hamilton (Earthscan, London 2010)

**EaArth**, Making a Life on a Tough New Planet, Bill McKibben (St Martin's Griffin, New York 2010)

**The Weather Makers**, How Man is Changing the Climate and What it Means for Life on Earth, Tim Flannery (Grove Press, New York 2006)

**Our Choice**, A Plan to Solve the Climate Crisis, Al Gore (Rodale, Emmaus PA 2009)

**Six Degrees**, Our Future on a Hotter Planet, Mark Lynas (Fourth Estate, London 2007)

**The Man Who Planted Trees**, Jim Robbins (Spiegel & Grau, New York 2012)

**Deep Economy**, The Wealth of Communities and the Durable Future, Bill McKibben (St Martin's Griffin, New York 2007)

**The Sacred Balance**, Rediscovering Our Place in Nature, David Suzuki (Greystone Bookds, Vancouver 2007)

**The Last Hours of Ancient Sunlight**, The Fate of the World and What We Can Do Before It's Too Late, Thom Hartmann (Three Rivers Press, New York 2004)

**Climate Change Begins at Home**, Life on the Two-way Street of Global Warming, David Reay (Macmillan, New York 2004)

**Silent Spring,** Rachel Carson (Houghton-Mifflin 1962)

Mae gan y Cymro **Syr John Houghton** lyfrau o bwys ar y pwnc hefyd.

# Gweld y môr yn codi — ac ofni colli ynysoedd



Kathy Jetnil-Kijiner — llais yr ynysoedd

**MAE Kathy Jetnil-Kijiner yn drefnydd lleol mudiad ymgyrchu amgylcheddol 350.org ar rai o ynysoedd Gweriniaeth Ynysoedd Marshall yn y Môr Tawel. Ond mae hi hefyd yn fardd. Trwy ei cherdd** ***D'wedwch wrthynt*** **mae'n tynnu sylw'r byd at ofn ei phobl am y codiad yn lefel y môr sy'n dilyn Cynhesu Byd-eang:**

... d'wedwch wrthynt am y dŵr
sut ry'n ni wedi ei weld yn codi
yn ffrydio dros ein mynwentydd
yn llifo dros ein muriau môr
ac yn hyrddio yn erbyn ein cartrefi

d'wedwch wrthynt sut beth
yw gweld y cyfan o'r cefnfor yn lefel â'r tir
d'wedwch wrthynt
fod ofn arnom

d'wedwch wrthynt nad ydym yn gwybod
am y wleidyddiaeth
nac am y wyddoniaeth
ond d'wedwch wrthynt ein bod yn gweld
beth sydd yn ein hiard gefn

d'wedwch wrthynt fod rhai ohonom
yn hen bysgotwyr sy'n credu
y gwnaeth Duw addewid i ni

d'wedwch fod rhai ohonom
yn dipyn mwy amheus am Dduw

ond yn bwysicaf oll
d'wedwch wrthynt
y'n ni ddim eisiau gadael
y'n ni byth wedi eisiau gadael

a'n bod
yn ddim
heb ein hynysoedd

**[Am y cyfan o'r gerdd bwerus hon, ewch at flog Kathy ar http://jkijiner.wordpress.com.]**

## Dros 600 o gerddi am Gynhesu Byd-eang ...

# Gornest Awel Aman Tawe'n denu beirdd y byd

**WRTH i un o Brifeirdd Eisteddfod Genedlaethol Cymru ddod i'r brig eleni, mae Cystadleuaeth Barddoniaeth Newid Hinsawdd Awel Aman Tawe wedi cyrraedd statws o bwys yn y ffurfafen farddonol Gymraeg.**

Ac wrth i dros 600 o feirdd o bedwar ban gystadlu yn yr Adran Saesneg, mae 2ail ornest eiriol flynyddol y mudiad ynni adnewyddol cymunedol hwn wedi ennill statws rhyngwladol.

Y Prifardd Hilma Ll.Edwards o Bontnewydd, Caernarfon, enillodd yr Adran Gymraeg. Yn ei cherdd gynghaneddol, mae'n mynegi'n gelfydd ei phryder wrth i'n pegynnau iâ grebachu o ganlyniad i – ac yn cyfrannu at — Gynhesu Byd-eang:

Gam wrth gam mae'r Arctig gwyn yn llithro
yn llathraidd i'r dibyn
ei farw ym mhob diferyn
a'r llif yn cymylu'r llun.

Ac yno, gwêl yr eirth polar eiconaidd yn wynebu colli cynefin, a phrosesau colli byd:

A saif y brenhinoedd syn heno'n daer
ar diroedd y dibyn,
i wylio'u teyrnas laswyn
yn meinhau'n y mannau hyn.
...
Aros dan leuad arian ei golau
ac wylo galargan,
herio maent drwy'r oriau mân
dic toc y cloc yn clecian ...

Dyfarnwyd yr 2ail wobr yn yr Adran Gymraeg i Sioned Haf o Langadog, Shir Gâr. Yn ei cherdd *vers libre* feddylgar a heriol, **Troi Tir**, mae Sioned yn cyffelybu canlyniadau dydd o arddio cartrefol i'r niwed difeddwl wnawn fel dynolryw wrth siapio'r Ddaear, ein hunig gartref blanedol, i siwtio'n hunain:

Trannoeth edrychaf dros fy nhiriogaeth
dwt,
Yn gorff taclus, di-wraidd – yn llonydd.
Ac wrth oruchwylio'r byd cywrain hwn,
Gwelaf gyrff mwydod a chwilod yn gelain,
Yn sych fel gwreiddiau ar groen pridd,
Dan ddifaterwch gwres y bore.
Bu'r dydd o arddio'n drech arnynt.

Oedfa fer sydd i bob garddwr.
Ac i bob cynefin hefyd.

Yn 3ydd, daeth Martyn Huws gyda **Dwyn Ana'l**.

Enillwyr yr Adran Blant oedd Gwynfor Dafydd, Siriol Jenkins a Gethin Roberts.

Cyhoeddir gwaith y beirdd mewn antholeg hynod ddifyr ac amrywiol sy'n cynnig ymatebion llawn dychymyg i brosesau Cynhesu Byd-eang.

► Gellir archebu **And this global warming / A'r cynhesu byd-eang hwn** trwy Awel Aman Tawe, Cwmllynfell — http://www.awelaman tawe.org.uk,
Neu ffoniwch: **01639 830870**



Hilma Ll. Edwards



Sioned Haf

# Llundain yn gwthio ffracio ar y Fro

**AGORWYD y llifddorau i ddiwydiant nwy ffracio yng Nghymru wedi i Ymchwiliad Cyhoeddus gan Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth San Steffan ganiatau tyllu arbrofol ger y Bontfaen.**

**Yn flaenorol, roedd Cyngor Sir Bro Morgannwg wedi gwrthod caniatad wedi ton o wrthwynebiad gan drigolion lleol. Ond gwyrdrowyd y penderfyniad democrataidd hwnnw.**

**Dyma oedd ymateb Gareth Clubb, Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru: "Mae dros hanner poblogaeth Cymru'n byw mewn ardaloedd a all fod yn safleoedd ffracio ... Mae ffracio yn ffordd frwnt i godi nwy brwnt** ***[gan achosi]*** **llawer mwy o ddifrod i'r hinsawdd na $CO_2$.**

**"Yn anffodus, San Steffan sydd â'r hawl dros drwyddedu ffracio. Mae'n hen bryd i'r holl benderfyniadau ynglyn ag ynni yng Nghymru gael eu gwneud yng Nghymru."**

***► Protestiodd dros 1,000 o bobl yn erbyn ffracio yn Senedd-dŷ Talaith Ohio ym mis Mehefin (llun tud 11). Honnir bod gwleidyddion wedi cael eu llwgr-wobrwyo.***

## LLIFOGYDD BOSCASTLE? BETH AM DALYBONT?

# Y dystiolaeth yn dod yn fwy eglur — mae Newid Hinsawdd yma

**ROEDD y rhifyn diwethaf o'r Papur Gwyrdd wedi cynnwys erthygl* gen i oedd yn sôn am lifogydd ysgytwol — gyda'r geiriau, 'e.e. yn Boscastle yng Nghernyw yn 2004'. Yn eironig, o fewn ychydig iddo ymddangos, trawyd Talybont a mannau eraill yng Ngheredigion gyda llifogydd enbyd cyffelyb.**

Gan DR CHARLOTTE DAVIES

Disgynnodd dwywaith y glaw arferol am fis Mehefin o fewn 24 awr yn yr ardaloedd hynny. Ac mae enghreifftiau o dywydd ffyrnig ledled Prydain wedi hawlio penawdau'r newyddion ers hynny.

Pwynt f'erthygl wreiddiol oedd dangos y perthynas agos rhwng Newid Hinsawdd, colli coedwigoedd a llifogydd. Wrth i gyfartaledd tymheredd y Ddaear godi — gyda difrodi fforestydd yn cyfrannu at hynny — mae'r awyr yn dal mwy o ddŵr. Pryd mae'n glawio, mae mwy yn disgyn mewn llai o amser. A heb ddail a gwreiddiau i'w harafu, mae'r dŵr yn llifo'n wylltach i'r afonydd gan orlifo.

Mae gwyddonwyr wedi bod yn amharod i ddweud ai Cynhesu Byd-eang sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau hinsawdd anghyffredin unigol. Ond maent yn gytûn y bydd Newid Hinsawdd yn golygu mwy o dywydd eithafol — yn amlach ac yn fwy ffyrnig.

Gadewch i ni edrych ar y mathau o dywydd eithafol a gafwyd dim ond ers cyhoeddi rhifyn diwethaf Y Papur Gwyrdd.

Dyw hafau gwlyb ddim yn anghyffredin yng ngwledydd Prydain. Ond, mis Mehefin eleni oedd y gwlypaf ers i recordiau ddechrau yn 1910 — gan ddilyn yr Ebrill gwlypaf a gofnodwyd.

Cawsom ddwywaith y glaw arferol ym mis Mehefin. Cafwyd llifogydd hefyd yn Lloegr â'r Alban.

Gan gadw at bwnc glaw — ym mis Mehefin ar Fynydd Elgon yn Uganda, claddodd tirlithriad dri phentref ar ôl glaw trwm, gan ladd dwsinau o bobl a gadael cannoedd yn ddigartref. Daw'r tirlithriadau o ganlyniad i ddistrywio coedwigoedd.

Yn Florida, gollyngodd Storm Drofannol Debby hyd at ddwy droedfedd o law gan achosi llifogydd difrifol yng ngogledd y dalaith. Hon oedd y bedwaredd storm drofannol i'w henwi eleni — y tro cyntaf i hyn ddigwydd ym mis Mehefin; fel arfer does dim cymaint o stormydd â hyn cyn mis Awst.

Yn Siapan yng Ngorffennaf, bu farw 28 o bobl mewn llifogydd ar Ynys Kyushu. Mewn stormydd eraill, bu farw 144 yn Krasnodar yn Rwsia a 10 yn Beijing, prifddinas Tsieina.



Llifogydd Canolbarth Cymru. *Llun: http://www.flickr.com/photos/7371031@N08/412693738*

Mae llifogydd yn digwydd yn fwy aml. Yn ôl y *Global Environmental Outlook* (GEO-5) a gyhoeddwyd gan y CU, cododd nifer y trychinebau 230% ers y 1980au, a'r nifer o bobl a effeithiwyd arnynt gan lifogydd wedi codi 114%.

Yn ogystal â glaw trwm a llifogydd, disgwylir i Gynhesu Byd-eang ddod â sychder, gwres a thanau gwyllt. A dyma a gafwyd mewn sawl man.

Bu gwres mawr, e.e., yng ngogledd yr India lle cododd y tymheredd i'r 40au (dros 104ºF) bob dydd am wythnosau. Bu tanau enfawr mewn fforestydd yn Siberia yn achosi *smog* yn Vancouver a lefelau osôn uchel yn British Columbia.

Daeth realiti sefyllfa'r gwres eithriadol yn nhaleithiau dwyreiniol yr Unol Daleithiau yn fyw imi'n bersonol wrth siarad â'm cyfnither yn Kentucky. Dywedodd hi fod y tymheredd wedi cyrraedd dros 100°F am ddyddiau ym Mehefin, tymheredd na fyddai wedi bod yn gyffredin hyd yn oed ym mis Awst pan oeddwn i'n blentyn yn Louisville. Bu farw dros 40 o bobl o ganlyniad i'r gwres oedd yn uwch nag erioed mewn dros 150 o ardaloedd.

Mae ffigyrau *National Climatic Data Center* yr Unol Daleithiau am eleni hyd yn hyn, yn dangos y gosodwyd saith o recordiau am y tymheredd uchaf am bob un am y tymheredd isaf. Heb Gynhesu Byd-eang, byddai'r niferoedd o dymereddau eithafol uchel ac isel yn tueddu i fod yn gyfartal.

Sbardunodd y gwres ddigwyddiadau eithafol eraill: Daeth 'derecho' — rhes o stormydd pwerus sy'n taro'n sydyn iawn — gan achosi difrod tebyg i gorwynt ar draws sawl talaith.

Yn nhaleithiau gorllewin America, difrodwyd fforestydd gan danau. Yn Colorado yn unig, cafodd cannoedd o dai eu llosgi'n ulw gan adael miloedd yn ddigartref. Mae gaeafau anghyffredin o dwym diweddar wedi hybu'r chwilod pinwydd mynydd, sy'n lladd y coed — gan adael tir sych a choed marw, yn berffaith ar gyfer tanau gwyllt.

Er bod gwyddonwyr yn ofalus ynglŷn â rôl cynhesu byd-eang yn hyn oll, maent yn dechrau casglu prawf mwy pendant am y cysylltiadau.

Mae astudiaeth gan y *National Oceanic and Atmospheric Administration* yn yr UD a Swyddfa Dywydd y DG yn dangos bod digwyddiadau tywydd eithafol yn debycach oherwydd Newid Hinsawdd.

Roedd gwres mis Tachwedd 2011 — yr ail boethaf a gofnodwyd yn y DG — yn 60 gwaith yn debycach oherwydd Newid Hinsawdd nag oherwydd newidiadau naturiol. Roedd y sychder trychinebus yn Texas y llynedd yn 20 gwaith yn debycach oherwydd Newid Hinsawdd.

Meddai Peter Stott o Swyddfa Dywydd y DG, "Rydyn ni'n llawer mwy hyderus wrth briodoli *[effeithiau tywydd]* i Newid Hinsawdd. Mae hyn yn adeiladu i ddarlun cryfach a chryfach o ddylanwad dynol ar yr hinsawdd."

Yn wyneb hyn oll, fel dinasyddion cyfrifol, mae'n hen bryd i bawb ohonom ffyrnigo — gyda'n gwleidyddion am eu hymateb claear i rybuddion gwyddonol, gyda'r corfforaethau am roi elw o flaen dyfodol y Ddaear a gyda'r rhai ffôl sy'n gwadu Newid Hinsawdd a'i berygl i'r ddaear.

Hen bryd, hefyd, i ni wneud popeth y gallwn i wyrdroi'r sefyllfa fygythiol sy'n ein hwynebu ni. A dechrau gwneud hynny cyn ei bod yn rhy hwyr. ■

***Neges y coed: 'Chwalu = Dinistr; Gwarchod = Gobaith' (rhifyn Mehefin / Gorffennaf)***

# Mynd ati i leihau ‘ôl-troed’ yn HQ Y Papur Gwyrdd

**WNAETHON ni erioed gosod ein hunain lan fel Gwyrddion-mwy-Sanctaidd na chi wrth lansio’r Papur Gwyrdd.**

**Ein teimlad oedd bod lle i bobl gyffredin fel ni i fod yn rhan o’r ymdrechion i geisio ffrwyno Cynhesu Byd-eang — ac i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Ac, yn sicr, roedden ni eisiau newid ein bywydau ein hunain gyda hynny mewn golwg.**

**Mae’r rhestr ganlynol yn esbonio’r math o bethau rydyn ni wedi’u gwneud fel pâr sy’n byw mewn ‘tŷ semi’ bach cyffredin mewn ardal anffasiynol o ddinas Abertawe. Gobeithio y bydd yn gynorthwyol wrth i bawb ohonom geisio lleihau ein hôl troed difrodol ar y Ddaear. Dyma rai ohonyn nhw:**

Troi lawnt ein gardd gefn yn ardd ffrwythau a llysiau, ynghyd â phwll dŵr (à la, *The Good Life*!)

Creu ein gwrtaith gardd organig ein hunain (pleser pur)

Peidio â defnyddio pla-laddwyr na chwyn-laddwyr cemegol (ond yn gwneud bywyd slygiau’n fwy anodd!)

Cael torrwr gwair ‘bôn-braich’ yn lle’r un trydan (rhatach a iachach)

Prynu offer trydanol newydd mwy effeithlon


Newid i fylbiau ynni isel (wrth gwrs)

Newid i gwmni trydan Good Energy (ardderchog — ynni di-garbon, adnewyddol yn unig)

Diffodd wrth eu socedi offer trydan nad sy’n cael eu defnyddio (perygl o droi’n obsesiwn!)

Newid ein Daihatsu Fourtrack 4x4 o diesel i olew llysieuol (gwynt sglods hyfryd a rhedeg yn rhwyddach)

Gan
HYWEL A CHARLOTTE DAVIES



Ein hen garej dwbl a ddaeth yn bencadlys Y Papur Gwyrdd

Cael gwared â ‘Dai’ gan gadw ond ein Honda Civic ‘Hybrid’ hyfryd (sef trydan a phetrol)

Defnyddio llawer mwy ar fysiau (llawer mwy ymlaciol a llawer mwy o hwyl)

Defnyddio mwy ar drenau (e.e. dros nos i Fenis, ac i Penzance/ Ynysoedd y Scillies)

Hedfan ond unwaith y flwyddyn (hynod ddinistriol o ran $CO_2$)

Cael deunydd ‘insiwleiddio/ ynysu’ yn yr attig ac ym muriau’r tŷ

Codi ‘*porch*’ dros ein drws cefn i gadw’r oerfel allan (lle braf i’r tomatos, hefyd)

Cael dau dwba casglu dŵr

Ail-gylchu’n frwdfrydig (gan gasau gosod dim yn y bagiau ‘gwastraff’ du)

Cael cawodydd bob-yn-ail noson yn lle pob noson, i arbed trydan (wedi’r cyfan, nid ffermwyr na gweithwyr dur ydyn ni)

Cynnig eitemau sbâr am ddim ar wefan Siop Gyfnewid Cyngor Abertawe (ffordd wych o gael gwared â ‘stwff’ sy’n ddi-angen i ni ond yn ddefnyddiol i eraill)

Trefnu derbyn llysiau a ffrwythau organig / lleol yn wythnosol

... a phob math o syniadau eraill a groesawn o bob rhan o’r byd.

**Wrth feddwl am anferthedd y problemau sy’n ein hwynebu, bach iawn. Iawn, yw hyn, wrth gwrs.**

**Ond, trwyddynt, i lawer sy’n ein nabod, rydyn ni wedi disgyn i’r slot ‘Gwyrdd’ go iawn!**

**A dweud y gwir, rydyn ni’n falch iawn o fod yno ac yn dymuno gweld llawer mwy’n ymuno â ni!**

**Ond daeth yr awr i ddod â’r PG i ben.** ■



Cysylltu â charedigion y Ddaear ledled y byd



Llunio tudalennau gyda Microsoft Publisher



Yn barod i’w troi’n fersiynau PDF a’u ebostio i’w hargraffu ym Mynachlog Nedd



Ynghanol y broses — trafod tudalennau rhifyn newydd o’r Papur Gwyrdd yn ein swyddfa

## Rhaid dysgu sut i guro'r corfforaethau

**Os chwaraewn yn ôl y rheolau a osodwyd gan y corfforaethau am ein bywyd gwleidyddol, byddwn yn colli ... Fe wnaethant yn siwr *[er enghraifft]* fod datganiad swyddogol Cynhadledd Rio+20 yn gawdel o eiriau twyllodrus ac addewidion gwag. Rhaid i ni ddod o hyd i'r llefydd lle bydd grym pobl yn rhoi'r fantais i ni.** Bill McKibben — Mudiad 350.org

# Amddiffyn yr Arctig — ac apêl brenhinol

**LLONGYFARCHIADAU i fudiad Greenpeace am eu gweithredu di-drais yn erbyn bwriad cwmni Shell i dreisio'r Arctig trwy dyllu yno am olew.**

Tynodd aelodau'r mudiad sylw'r cyhoedd at fwriad peryglus o anghyfrifol Shell trwy atal gwasanaethau mewn dros 70 o orsafoedd petrol yn Llundain a Chaeredin. Arestiwyd 25 o aelodau am eu gweithredu.

Hefyd yng Ngorffennaf, cynhaliwyd protest ganddynt mewn tu allan i ddau orsaf betrol Shell yn Abertawe (llun, tudalen 11).

Aeth aelodau Greenpeace i bencadlys Shell yn yr Iseldiroedd, hefyd, gan feddiannu swyddfa'r Prif Weithredwr.

Meddai llefarydd i'r mudiad: "Mae'r Arctig bregus dan fygythiad gan Newid Hinsawdd a thyllu am olew. Wrth i Newid Hinsawdd doddi iâ'r Arctig, mae cwmniau olew yn symud yno i godi mwy o'r tanwyddau ffosil sy'n achosi'r toddi yn y lle cyntaf.

"Ond, yng nghylch yr Arctig, mae'r tymereddau rhewllyd, cyfnod tyllu cyfyng, ac ardaloedd anghysbell yn golygu y byddai gollyngiad olew bron yn ambosibl i ddelio ag ef. Mae'n gatastroffi sy'n aros i ddigwydd."

■ Ym Mehefin, cafodd pedwar aelod o fudiad Climate Siren eu harestio am ddringo ar gatiau Palas Buckingham.

Roedd ganddynt faner gyda geiriau'r Tywysog Siarl arno: "Mae cloc Dydd Barn Newid Hinsawdd yn tician yn gyflymach nag erioed at hanner nos. Yn syml, dydyn ni ddim yn ymateb yn ddigon cyflym."

# Angen mwy o dyrbinau gwynt ar dir — gyda gofal — medd pwyllgor

**WRTH i 'Lywodraeth Wyrddaf erioed' Clymblaid Ceidwadwyr/Rhydd-Dem San Steffan droi yn erbyn ynni adnewyddol, cefnogwyd ynni gwyrdd yn gryf gan un o bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Ond galwodd, hefyd, am amddiffyniad a manteision i gymunedau lleol.

Bellach, gwelir Mandariniaid cudd Trysorlys Whitehall fel prif elynion ynni adnewyddol wedi i Lywodraeth Cameron-Clegg chwalu twf diwydiant ynni haul trwy docio'n sylweddol ar daliadau cynhyrchu yn ddiweddar.



Pennaeth newydd Cyfeillion y Ddaear Cymru, Gareth Clubb (de) , yn cwrdd â Gweinidog Amgylchedd Cymru, John Griffiths AC, yng Nghynhadledd Flynyddol Cyfeillion y Ddaear Cymru ym Mhenarlâg.

Disgwylir y bydd Canghellor y Trysorlys, George Osborne, yn parhau â'r agwedd negyddol hon at ynni glan trwy docio'n galed ar gymorthdaliadau i'r sector ynni gwynt gan niweidio'r diwydiant hwnnw hefyd. Gwthio am niwclear a nwy yw ei bolisi ef.

Yng Nghymru, lle mae gan ein Cynulliad ddyletswydd i hyrwyddo polisïau 'cynaladwy', mae Dafydd Elis Thomas AC, cadeirydd Pwyllgor Amgylchedd ac Ynni Cynaladwy'r Cynulliad, wedi dweud mai'r cwestiwn yw, "Beth yw'r cydbwysedd mewn byd ble rydym yn wynebu pwnc difrifol Newid Hinsawdd, a lle mae rhaid i ni, felly, leihau'n sylweddol yr elfen garbon wrth gynhyrchu trydan?

"Rhaid dod o hyd i'r cydbwysedd rhwng hynny a'r etifeddiaeth naturiol a phrydferthwch diamheuol ein cefn gwlad."

Mae adroddiad y Pwyllgor i bwnc ynni a chynllunio yn cefnogi ehangu ar ynni adnewyddol, yn benodol ynni gwynt ar dir, ac yn feirniadol o'r arafwch a achosir gan y broses gynllunio.

Ond mae'n galw'n gryf ar Lywodraeth Cymru i warchod cymunedau rhag effeithiau ffermydd gwynt o ran trafnidiaeth ac amgylchedd.

Croesawyd yr adroddiad gan Gyfarwyddwr RenewableUK Cymru, Dr David Clubb. Croesawodd yn arbennig, "barn mwyafrif yr aelodau mai gwynt ar dir yw'r unig ddewis ymarferol y gellir symud ymlaen ag e'n ddigon cyflym ac yn ddigon sylweddol ar hyn o bryd.

"Mae'r sector adnewyddol wedi ymrwymo i greu swyddi gwyrdd, gwelliannau amgylcheddol a manteision cymunedol ar draws Cymru."

► ***Roedd mwyafrif y Pwyllgor hefyd o blaid cael atomfa niwclear newydd ar safle Wylfa, Ynys Môn.***

# Dim olew tar niweidiol i Benfro!

**MAE gwrthwynebiad yn Sir Benfro i'r posibilrwydd y caiff un o danwyddau mwyaf niweidiol y Ddaear, sef olew o dywod tar, ei fewnforio trwy borthladd Aberdaugleddau.**

Mae gan gwmni Valero, perchennog Americanaidd newydd purfa olew Penfro, fuddsoddiad mawr mewn safleoedd cloddio'r tanwydd yng Nghanada ac ym mhurfeydd Arfordir y Gwlff yn yr Unol Daleithiau.

Mae Valero ymysg cefnogwyr mwyaf Pibell XL y bwriedir iddo gario tywod tar o Ganada i'r Gwlff ond sydd wedi'i atal dros dro trwy rym protestiadau yn ei erbyn yn America.

Medd Gordon James o Gyfeillion y Ddaear Sir Benfro, "Does dim modd cyfiawnhau llosgi tanwydd fydd yn cael effaith mor niweidiol ar ein hinsawdd pan mae gwyddonwyr ac arbenigwyr ynni'n rhybuddio bod rhaid defnyddio ffynonellau ynni glanach.

"Olew tar tywod yw'r tanwydd mwyaf difrodol a gynhyrchir yn fasnachol heddiw, gan greu tair gwaith yn fwy o allyriadau newid hinsawdd na thanwyddau ffosil confensiynol.

"Mae hyn yn debyg i'r bygythiad a gaed i fewnforio Orimulsion yn y 1990au. Unwaith eto, dywedwn na ddylai Sir Benfro gael unrhyw beth i wneud â thanwydd mor niweidiol."

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

Ein dewis olaf o blith gweithgareddau 'Gwyrdd' ledled Cymru — a'r gorau a gafwyd



## Y Maes Gwyrdd — Gwyrdd, cyhoeddus, Cymraeg!

**NEWYDDION gobeithiol iawn i amgylcheddwyr Cymraeg oedd y cyhoeddiad y llynedd y byddai Maes Gwyrdd arloesol yn rhan o Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg a'r Cylch, 2012, Awst 4—11.**

Mae'r Papur Gwyrdd wedi bod yn gefnogol i'r fenter ers y cychwyn, yn enwedig i'r Trefnydd, Nathan Williams, ynghanol ei holl brysurdeb cynyddol.

Digwyddiad Gwyrdd Cymraeg a chyhoeddus ydy'r Maes Gwyrdd, nid rhywbeth cyfyngedig, academaidd neu asiantaethol – ac mae hynny'n destun llawenydd.

Bydd llawer ohonoch yn cael gafael ar y rhifyn olaf hwn o'r Papur Gwyrdd mewn pryd i ddilyn ein hanogaeth i ymweld â'r Brifwyl ac i alw draw i fwynhau cynigion amrywiol y Maes Gwyrdd.

Gobeithio y bydd y gweddill ohonoch a gaiff Y Papur Gwyrdd yn rhy hwyr wedi mentro i gynefin Iolo Morgannwg heb fod angen anogaeth arnoch.



Ymhlith y stondinau, arddangosfeydd a gweithgareddau amrywiol cerddorol a chelfyddydol yn ardal y Maes Gwyrdd fe gynhelir e-Coleg. Yno fe geir sgyrsiau a thrafodaethau ar wahanol agweddau o'r pwnc eang o sut i fyw'n ysgafnach ar y Ddaear cyn i ni ei dinistrio'n llwyr.

Mae amserlen yr e-Coleg yn un llawn, yn rhy hir i ni ei chyhoeddi yn ei chyfanrwydd yma. Ond dyma rai o'r achlysuron sy'n cynnig ychydig o flas o'r hyn a geir:

Dydd Sadwrn, Awst 4: 2 o'r gloch — Guto Dafis, Chwedlau Cymraeg

Dydd Sul, Awst 5: 2 o'r gloch – Twm Morys, Sgwrs a chanu am Dribannau Bro Morgannwg

Dydd Llun, Awst 6: 11 o'r gloch – Cynog Dafis, Pa fath o Gymru? Gwyrddni a'r Prosiect Cenedlaethol

Dydd Mawrth, Awst 7: 11 o'r gloch – Dr Carl Iwan Clowes, Plan A nid Wylfa B

Dydd Mercher, Awst 8: 11 o'r gloch – Dr Christine James, Galaru ar ôl Gwyrddni – dwy gerdd werdd o'r 16eg ganrif

Dydd Iau, Awst 9: 11 o'r gloch – Dr Iolo ap Gwynn, Cymru Zero Carbon 2030

Dydd Gwener, Awst 10: 11 o'r gloch – Jill Evans ASE, Argyfyngau – mae'r ateb yn wyrdd

Dydd Sadwrn, Awst 11: 11 o'r gloch – Gareth Clubb, Hawliau ieithyddol ac amgylcheddol

Y gobaith yw y ceir digon o lwyddiant i gyfiawnhau Maes Gwyrdd arall yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych, 2013. Gobeithio wir.

## Dynoliaeth yn difa byd natur

**CAFWYD rhybudd gan gorff gwyddonol newydd dan aden y Cenhedloedd Unedig fod bywyd gwyllt o bob math yn diodde'n enbyd bellach o ganlyniad i'r pwysau arnynt gan ddynoliaeth am adnoddau.**

Yn dilyn cyfarfod gan wyddonwyr rhyngwladol yn Copenhagen i drefnu sefydlu corff Gwasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau, cyhoeddwyd datganiad yn datgelu bod lladd rhywogaethau a difrodi ecosystemau yn digwydd ledled y Ddaear ar gyflymder cynyddol.

Medd y datganiad: "Mae difodiant mawreddog rhywogaethau wedi digwydd pump o weithiau yn hanes y byd — y tro diwethaf oedd 65 miliwn o flynyddoedd yn ôl pan ddiflannodd y dinosoriaid a llawer o rywogaethau eraill.

"Gyrrwyd y cyfnodau difodiant blaenorol hyn gan newidiadau global yn yr hinsawdd ac yn natur gemegol yr hinsawdd, trawiadau gan *asteroids* a mynyddoedd tân."

Aiff y datganiad ymlaen: "Bellach rydyn yn y 6ed digwyddiad difodiant, sy'n ganlyniad i gystadleuaeth am adnoddau rhwng un rhywogaeth ar y blaned — dynoliaeth — a'r cyfan o'r lleill.

"Mae'r broses at ddifodiant yn cael ei achosi'n bennaf gan lygru cynefinoedd gydag effaith ar fioamrywiaeth sy'n cael ei waethygu gan Newid Hinsawdd a achosir gan ddynoliaeth."

### Cyd-weithredu, neu gyd-ddioddef

**"Mae'r wyddoniaeth yn gadarn, ac mae'r wyddoniaeth yn dweud taw dynoliaeth sy'n achosi *[Cynhesu Byd-eang]* ... Mae'n bygwth niweidio system cymdeithasol, beiolegol ac economaidd y byd ... efallai'r bygythiad mwyaf rydym yn ei wynebu ... Os nad yw gwledydd yn gweithredu ar y cyd, fe fyddan nhw'n dioddef ar y cyd."**

**Syr Emyr Jones Parry, Cyn-Llysgennad y DG i'r CU**

## Cartrefi oerach ... planed boethach

LLWYDDODD Cytundeb Montreal 1987 i gyfyngu ar nwyon CFC gan atal dinistrio'r haenen *ozone* sy'n amgylchynu'r Ddaear .

Yn anffodus, mae'r nwyon saffach a ddefnyddir ers hynny, e.e., mewn systemau oeri adeiladau, yn 2100 gwaith yn waeth na $CO_2$ wrth achosi Cynhesu Byd-eang.

Erbyn hyn, mae nwyon oeri newydd wedi'u datblygu i osgoi hynny, ond does dim cytundeb i'w defnyddio wrth i oeryddion ledaenu trwy Tsieina ac Asia.

O ganlyniad, *'Cooler Homes, Hotter Planet,'* fu pennawd y **New York Times** wrth rybuddio am y datblygiad bygythiol hwn.

**Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi bod yn gwarchod yr amgylchedd a gwneud pethau'n well i bobl Cymru ers mwy na 25 mlynedd.**

**Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cyfarfod drwy Gymru gyfan. Cymerwch ran, a helpwch ni i wneud gwahaniaeth yn lleol ac yn fyd-eang.**

**www.cyddcymru.co.uk**

**02920 229 577**

Cyfeillion y Ddaear Cymru
Friends of the Earth Cymru

## Angen i ni gymryd cyfrifoldeb am y dyfodol a rown i'r plant

**"Os nad ydym i gyflwyno 'storm berffaith' i'n plant, rhaid i ni gymryd llawer mwy o gyfrifoldeb fel unigolion, yng ngeiriau Gandhi 'i fod y newid y dymunwn weld yn y byd', i greu ymwybyddiaeth uwch, i lobïo ac i ymgyrchu. Rydym yn mynd yn rhy dawel i'r nos. Fe ddylen ni deimlo'n gynddeiriog."** Gordon James, Cyn-Bennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru

## Talesin yn croesawu diwedd YPG

BYDD pethau'n wahanol iawn yn ein tŷ ni heb Y Papur Gwyrdd. Dyna yw barn ein llamgi Cymreig tair oed, Taliesin. Ac mae'n fwy na hapus ynghylch hynny.

Prif gŵyn Taliesin yw bod disgwyl iddo ddod allan i'r Ffau — sef ein hen garej allanol — bob yn ail fis i dreulio oriau di-ben-draw yn gorwedd dan ddesg Charlotte, neu dan argraffydd Hywel, wrth iddyn nhw wneud beth bynnag sy'n eu cadw nhw'n hapus (wel, ymhell o fod yn hapus o dro i dro, wrth iddyn nhw ddyfynnu pryderon gwyddonwyr i'w gilydd!).

Ydy, mae Taliesin yn dal yn cael mynd am dro i barc Treforys yn foreol, ac am dro llai gyda'r hwyr, ond mae'r ymweliadau cyffrous â thraeth braf Abertawe yn digwydd yn llai aml yn ystod y misoedd hynny, yn enwedig wrth i ddyddiad

## Y byd a'r aelwyd

### Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'



**Taliesin**

'argraffu' Y Papur Gwyrdd bondigrybwyll nesau. Ac erbyn hynny, mae'r un ohonynt sy'n twyllo'i hunan taw fe yw pennaeth y pac bron fel meudwy yn ei gell.

Felly, mewn pryd i fwynhau ychydig o dywydd braf, gobeithio, mae'r rhagolygon cï-aidd yn goleuo — medd Taliesin, gan siglo'i gwt.

WRTH i ni gasglu slygiau'r noson o'r blaen — yn barod ar gyfer eu bywyd newydd yng ngofal Adran Ail-gylchu Cyngor Dinas a Sir Abertawe — cawsom reswm i lawenhau, a rhyfeddu. Llamodd broga o ganol y tatws i'r llwybr o'n blaen, ac yna i ddiogelwch y pwll dŵr bach sydd gennym yma.

Sut yn y byd daeth y broga atom? Hynny yw, mae wal o gwmpas yr ardd. Gwir fod lle i mewn i'r ardd, efallai, o dan y giât. Ond mae hi'n rhyfeddod sut mae creaduriaid fel y broga, a'r llwyth o fadfallod sydd gennym, yn clywed amdanom ac yn cyrraedd yma.

Ond croeso iddynt. Rydyn ni'n achosi digon o ddistryw i gynefinoedd bywyd gwyllt. Braf cael bod yn gyfrifol am ychydig o ddaioni.

TRAFOD â'n gilydd. Byddai'n braf, meddem, pe bawn yn clywed bod cylchgrawn ecolegol Cymraeg newydd yn cael ei sefydlu nawr bod Y Papur Gwyrdd yn diflannu i'r archifau. Byddai dau danysgrifiwr brwd iawn iddo ar unwaith yma yn Nhreforys.

Oes criw o'r un anian yn rhywle sy'n barod i wynebu cyhoeddi cylchgrawn heb nawdd — na meddylfryd — yr asiantaethau? Cofiwch yr hen ymadrodd: Y de sy'n cychwyn; y gogledd sy'n cadw. Oes gobaith? (Fydden ni ddim yn gwrthod menter o'r de, cofiwch!)

BU'N wych rhannu'ch cwmni ar daith Y Papur Gwyrdd. Hwyl fawr a phob bendith. Trysorwn y Ddaear!

***Hywel a Charlotte***

## Lluniau — Er Mwyn y Byd



**Rhandir newydd ar safle hen gae pêl-droed y Vetch, Abertawe. Rhan o'r *Olympiad Diwylliannol*!**



**Pabi Cymreig — yn hapus gyda'n Haf gwlyb**



**Protest dorfol yn Senedd Talaith Ohio yn erbyn ffracio nwy ym mis Mehefin. Llun: Josh Lopez. http://creativecommons.org/ (350.org)**



**Gethin Roberts o Brestatyn — un o feirdd cystadleuaeth Newid Hinsawdd Awel Aman Tawe — yn darllen ei gerdd yn y noson wobrwyo ym Mhontardawe.**

**AR Y DDE: Gwrthdystiad Greenpeace yn erbyn Shell yn Abertawe — gyda Charlotte ar y chwith, Hywel ar y dde, a phrotestwyr ychydig yn ifancach rhyngddon ni!**



# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






## … gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

